OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 1662

# Rheoliadau Clefyd Affricanaidd y Ceffylau (Cymru) 2013

## RHAN 3

## Amheuaeth a chadarnhad o glefyd Affricanaidd y ceffylau

**Gosod mesurau pan fo amheuaeth o glefyd**

**8.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo arolygydd yn amau bod ceffyl neu garcas sydd wedi ei heintio neu a oedd wedi ei heintio â feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol mewn unrhyw fangre neu wedi bod mewn unrhyw fangre (yn dilyn hysbysiad o dan reoliad 5(1) neu fel arall).

(2) Caiff yr arolygydd gyflwyno hysbysiad i'r prif feddiannydd gan ddynodi'r fangre honno yn fangre dan amheuaeth, ac ar yr adeg honno mae'r mesurau sydd yn yr Atodlen yn cael effaith(**1**).

(3) Rhaid i hysbysiad o'r fath a gyflwynir mewn perthynas â mangre gyswllt bennu bod y fangre yn fangre gyswllt.

(4) Caiff hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (2) ei gwneud yn ofynnol i'r prif feddiannydd godi a chynnal a chadw'r cyfryw arwyddion yn y fangre fel y bo'n ofynnol gan arolygydd milfeddygol.

(5) Pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan baragraff (2), rhaid i arolygydd milfeddygol—

(a) i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, asesu mannau sy'n debygol o hwyluso parhad y fectorau, neu roi lle iddynt, a pha mor ymarferol fyddai defnyddio mesurau priodol i reoli fectorau mewn mannau o'r fath;

(b) cychwyn ymchwiliad epidemiolegol i geisio sefydlu o leiaf—

(i) faint o amser y gallai feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau fod wedi bodoli mewn ceffylau yn y fangre,

(ii) tarddiad y feirws hwnnw,

(iii) enw mangreoedd eraill lle y mae ceffylau a allai fod wedi cael eu heintio,

(iv) presenoldeb a gwasgariad fectorau,

(v) symudiad unrhyw geffyl i'r fangre neu oddi yno, neu unrhyw garcasau a dynnwyd ymaith ohoni, a

(vi) y posibilrwydd y gallai ceffylau nad ydynt yn rhai caeth fod yn gyfrannog yn ymlediad y feirws,

a pharhau â'r ymchwiliad hyd oni fydd y materion hyn wedi eu sefydlu i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, neu hyd oni ddiystyrir y posibilrwydd fod feirws clefyd Affricanaidd y ceffylau yn bresennol.

(**1**) *Gweler* hefyd bŵer Gweinidogion Cymru o dan reoliad 17 i ddatgan parth cyfyngu dros dro ar symud.